

Mwy na Miliwn

Dinasyddiaeth
Gymraeg i Bawb



Mwy na Miliwn

Dinasyddiaeth Gymraeg i Bawb

Cyflwyniad	2
Crynodeb: y ffordd ymlaen	4
1. Creu siaradwyr	5
2. Cynyddu defnydd y Gymraeg	9
3. Dinasyddiaeth Gymraeg i bawb	20
Ariannu'r cynigion	22
Casgliadau	24



Cyflwyniad

Mae bellach yn bum mlynedd ers i Gymdeithas yr Iaith gyhoeddi ein dogfen weledigaeth 'Miliwn o siaradwyr Cymraeg' ac mae'n dair blynedd ers i'r llywodraeth gyhoeddi ei strategaeth ar gyfer cyrraedd y targed hwnnw.

Roedd tri amcan yn perthyn i weledigaeth y Gymdeithas o filiwn o siaradwyr a gyhoeddwyd yn 2015, sef gofyn i'r pleidiau ymrwymo i'r canlynol:

1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn
2. Atal yr allfudiad a chynnal cymunedau ynghyd â sicrhau llwybrau i ddod â Chymry Cymraeg yn ôl i'w cymunedau
3. Defnyddio'r iaith ymhob rhan o fywyd er mwyn sicrhau mai'r Gymraeg yw'r iaith naturiol o'r crud i'r bedd.

Ers datganoli, mae nifer o strategaethau iaith digon clodwiw wedi eu mabwysiadu gan lywodraethau datganoledig, ond wedi mynd yn angof wedi hynny. Ar y cyfan, methiant fu hanes y polisiau a'r strategaethau iaith datganoledig hyn. Mae cyfuniad o ffactorau yn gyfrifol am y methiant hwn, gan gynnwys y neo-ryddfrydiaeth remp sy'n cael ei derbyn bron â bod yn ddi-gwestiwn yn ein disgwrs cyhoeddus. Un arall yw'r ffaith bod y Gymraeg wedi ei thrin fel eithriad i brif ffrwd gweinyddiaeth a bywyd cyhoeddus Cymru; fel iaith ymylol, symbolaidd yn unig i'w thrin yn docenistaidd. Nid oes angen edrych ymhellach na'r trafodaethau yn ein Senedd genedlaethol ein hunain i weld, a chlywed yn glir, bod ein bywyd cyhoeddus yn un sy'n cael ei gynnal bron â bod yn uniaith Saesneg. Dyma Senedd lle clywir rhai'n dadlau nad yw'r Gymraeg yn iaith gynhwysol, ac yn wir ei bod yn allgáu. Heb os, nawr yw'r amser i herio'r camsyniad peryglus hwn, a hynny ar frys.

Dros y misoedd diwethaf, mae Gymdeithas yr Iaith wedi ymgynghori â phobl o bob rhan o'r wlad ar eu barn nhw am sefyllfa'r Gymraeg, a strategaethau iaith y llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus. Mae llawer o'r bobl rydyn ni wedi ymgynghori â nhw dros y misoedd diwethaf wedi mynegi awydd i'r llywodraeth nesaf ganolbwyntio ar gyflawni miliwn o siaradwyr: amcan sydd wedi ennyn consensws ar draws y pleidiau gwleidyddol a'r gymdeithas sifig.

Wedi tair blynedd o anelu fel gwlad at y nod hwn, mae consensws nad yw gweithredoedd y llywodraeth genedlaethol bresennol ac awdurdodau eraill yn ddigonol er mwyn ei gyflawni. Mae peryg felly yr ail-adroddwn hanes strategaethau iaith blaenorol o addo llawer ond methu cyflawni, a hynny er gwaethaf cefnogaeth gref y cyhoedd.

Mae'r ddogfen hon yn ymgais i ddadansoddi ac adeiladu ar y consensws, gan amlygu cyfleoedd i fynd ymhellach ac yn gyflymach gan ddyfnhau ac ymestyn y weledigaeth wreiddiol.

Wrth edrych ymlaen, mae'r Gymdeithas yn gwbl hyderus, os yw'r llywodraeth nesaf yn fodlon dilyn y llwybr cywir, y caiff targed y miliwn o siaradwyr ei gyrraedd, erbyn 2050 fan hwyraf.

Gan ein bod yn ffyddiog y gall y llywodraeth nesaf gymryd y camau iawn i gyrraedd miliwn o siaradwyr, credwn y dylai'r llywodraeth gyflwyno agenda 'mwy na miliwn o siaradwyr' er mwyn normaleiddio'r Gymraeg fel priod iaith ein cenedl ymhob agwedd ar fywyd.

Nid yw agenda ‘mwy na miliwn’ yn cyfeirio’n bennaf at dargedau ar gyfer creu mwy na miliwn o siaradwyr (er y bydd angen canolbwyntio ar hynny yn ogystal) ond yn hytrach at ddyfnhau’r agenda drwy ganolbwyntio ar ddefnydd bob dydd o’r iaith yn ein cymunedau, ein gweithleoedd a’n gwasanaethau cyhoeddus, ac estyn y Gymraeg i bawb, nid y rhai ffodus yn unig. Yn ein gwaith ymgysylltu, mae nifer o bobl wedi cyfeirio at y rhwystrau sy’n wynebu rhai grwpiau rhag cael mynediad at yr iaith—gan gynnwys rhwystrau daearyddol, economaidd, gwybodaeth neu ddsbarth cymdeithasol. Dyna sy’n ein harwain i alw’n ogystal am ‘ddinasyddiaeth Gymraeg i bawb’ er mwyn sicrhau bod pawb, yn ddieithriad, yn cael dysgu, profi a defnyddio’r iaith mewn modd ystyrion yn eu bywydau beunyddiol.

O’r ffoadur sydd newydd ddod i’n gwlad, y gymuned hirsefydlog o Ddwyrain Ewrop, i’r glanhäwr mewn ysgol Gymraeg, nid yw’r strwythurau na’r polisïau ar waith i sicrhau bod gan bawb fynediad ystyrion i ddysgu, mwynhau a defnyddio ein hiaith genedlaethol. Mae’r patrwm hwn yn fater o anghyfiawnder cymdeithasol mae’n rhaid ei dacio—mae angen estyn dinasyddiaeth Gymraeg i bawb sy’n gweld Cymru fel cartref iddynt, nid rhai yn unig. Yn yr oes ôl-Covid, gyda methiant y gyfundrefn economaidd bresennol a thwf yr adain dde eithafol, mae nawr yn amser pwysicach nag erioed i gynnwys pobl o bob cefndir yn yr iaith—bydd y Gymraeg yn arf dros undod yn erbyn gwleidyddiaeth cynyddol adweithiol.

Diffyg cynnal, cefnogi a chreu gofodau uniaith Gymraeg yw ochr arall y geiniog hon; dywedir yn llawer rhy aml nad yw’r Gymraeg yn iaith gynhwysol. Ac felly mae Cymry Cymraeg a’r rhai nad ydynt yn ei siarad fel ei gilydd o dan yr argraff bod cynnal gofodau—o gymunedau daearyddol, i weithleoedd i ddiwyddiadau—sy’n uniaith Gymraeg yn annerbyniol. Mae sicrhau gwir fynediad i’r iaith i bawb yn hanfodol felly fel rhan o’r gwaith o gynyddu nifer y gofodau lle mai’r Gymraeg yw’r cyfrwng iaith arferol.

Mae’r llywodraeth nid yn unig yn methu o ran cefnogi ymdrechion i greu a chynnal gofodau uniaith Gymraeg, mewn nifer o feysydd mae’n fwriadol ac yn anfwriadol yn eu tanseilio—o’r diffyg hawl i staff atodol ysgolion Cymraeg gael amser ac adnoddau i ddysgu’r iaith i’r ymgais i ddarbwyllo’r Llyfrgell Genedlaethol i beidio dynodi Cymraeg yn hanfodol ar gyfer swydd y Llyfrgellydd Cenedlaethol, sef un o’r sefydliadau llawer rhy brin sy’n gweinyddu’n fewnol yn y Gymraeg. Nid oes gwir gydnabyddiaeth gan wleidyddion na sefydliadau cyhoeddus o’r gwahaniaeth ansoddol anferth mae gofodau uniaith Gymraeg yn ei wneud o ran cynyddu defnydd yr iaith, ei normaleiddio a chreu siaradwyr hyderus.

Mae’r agwedd hon yn ymestyn at y difaterwch rydym yn ei weld tuag at sefyllfa fregus rhai o’n cymunedau lle mae cyfran helaeth yn siarad Cymraeg ac yn ei defnyddio fel iaith feunyddiol. Nid oes cydnabyddiaeth ystyrion o werth y Gymraeg fel prif iaith bywyd bob dydd, ac nid oes chwaith fesurau economaidd-gymdeithasol ar waith i fynd i’r afael â’r problemau strwythurol sy’n gyrru allfudiad pobl ifanc, dirywiad yr economi leol a cholli adnoddau cymunedol.

Drwy ganolbwyntio ar yr agenda ‘mwy na miliwn—dinasyddiaeth Gymraeg i bawb’ a amlinellir yn y ddogfen hon, gellir sicrhau bod y Gymraeg yn dod yn iaith bywydau beunyddiol pawb yn ein gwlad, o bob cefndir.

Gyda’r etholiad nesaf yn dod wedi ugain mlynedd o ddatganoli, mae’n hen bryd cymryd y cyfle i ddangos sut gall hunanlywodraeth wneud gwir wahaniaeth. Byddai cofleidio a gwreiddio dinasyddiaeth Gymraeg i bawb yn mynd ffordd bell tuag at adeiladu’r Gymru yr hoffem ei gweld: gwlad lle mae pob un ohonom, a phob cymuned, ar seiliau cadarn tuag at ddyfodol cynaliadwy, cyfiawn a Chymraeg.

Crynodeb: y ffordd ymlaen

Yn gryno, credwn fod angen gwahaniaethu'n ddadansoddol rhwng dau faes o ran anelu at 'fwy na miliwn' o siaradwyr a 'dinasyddiaeth Gymraeg i bawb', sef:

1. Creu siaradwyr
2. Cynyddu defnydd yr iaith ymhob agwedd ar fywyd.

Er bod hyn yn weddol elfennol, mae rhai llunwyr polisi'n drysu—yn fwriadol ac yn anfwriadol—rhwng y ddau faes pwysig hyn.

Er mwyn canolbwyntio ar gyrraedd 'mwy na miliwn' o siaradwyr a gweithredu ar y cysyniad o 'ddinasyddiaeth Gymraeg i bawb', credwn fod angen gweithredu yn y tri maes canlynol yn nhymor nesaf ein Senedd genedlaethol:

- Mwy na dyblu defnydd y Gymraeg, drwy:
 - Osod targed i greu mil o ofodau uniaith Gymraeg newydd, gan gynnwys cymunedau daearyddol
 - Sefydlu Menter Ddigidol Gymraeg, fel cam tuag at drosglwyddo pwerau darlledu i Gymru
 - Cynyddu'r buddsoddiad o 0.15% i 1% o wariant y llywodraeth, neu £186 miliwn¹ y flwyddyn, ar brosiectau i hyrwyddo'r Gymraeg erbyn 2025/26
- Creu mwy na miliwn o siaradwyr drwy:
 - Basio Deddf Addysg Gymraeg i Bawb
 - Buddsoddi £100 miliwn dros 10 mlynedd mewn hyfforddiant i'r gweithlu addysg a gofal plant
 - Cynyddu'r targed presennol ar gyfer canran yr athrawon newydd eu hyfforddi sy'n medru'r Gymraeg o 30% i 80% erbyn 2026
- Gweithredu agenda 'Dinasyddiaeth Gymraeg i Bawb' drwy:
 - Sefydlu Cronfa 'Mynediad at yr Iaith'
 - Sefydlu'r hawl i bawb, o bob oed, ddysgu Cymraeg yn rhad ac am ddim
 - Osod amodau ar grantiau cyhoeddus i ymestyn yr iaith i grwpiau sydd wedi'u heithrio ohoni.

Sylweddolwn y gall buddsoddiadau cyhoeddus fod yn gynyddol anodd yn ystod y cyfnod wedi Covid-19, ond rydym wedi adnabod ffyrdd o godi arian ychwanegol drwy bolisiau megis:

- treth ar AirBnB a thwristiaeth
- uwch-dreth ar elw landlordiaid ac ail gartrefi
- ardoll ar gwmnïau digidol a thelathrebu.

1. <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/cynnig-y-gyllideb-flynyddol-2020-2021.pdf>

1. Creu siaradwyr

Creu siaradwyr yw'r unig ffordd o gyrraedd miliwn o siaradwyr a mwy. Dim ond pedair ffordd sydd o gynyddu nifer y siaradwyr: yn y teulu; yn yr ysgol; oedolion yn dysgu; a denu siaradwyr yn ôl i Gymru. Mae gan Lywodraeth Cymru, ac yn wir unrhyw lywodraeth genedlaethol, fwy o reolaeth uniongyrchol dros addysg na'r un maes arall o bwys yn y broses o greu siaradwyr newydd.

Mae sawl datblygiad cadarnhaol wedi bod o dan arweiniad y Gweinidog Addysg presennol mewn ymdrech i gyflawni'r miliwn o siaradwyr, megis ymrwmo i ddileu Cymraeg ail iaith, gosod targedau twf addysg cyfrwng Cymraeg ar gynghorau a gosod targedau hyfforddiant athrawon meddal ar golegau hyfforddi. Fodd bynnag, nid oes angen edrych ymhellach na bil diweddar y Cwricwlwm i weld nad oes gwir ymdrech i ddilyn agenda uchelgeisiol sy'n normaleiddio addysg Gymraeg i bawb. Nid yw'r gweithredoedd hyn ychwaith yn gyfystyr â'r mesurau strwythurol a gweddnewidiol sydd eu hangen i gyrraedd miliwn o siaradwyr a sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn tyfu i fyny yn siarad Cymraeg. Yn wir, mewn sawl maes, mae dadansoddiad ystadegol syml yn dangos yn glir bod gweithredoedd y llywodraeth a'n cynghorau sir yn hollol annigonol.

Rydym yn ffyddiog bod modd cyrraedd mwy na miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ond er mwyn cyrraedd y nod hwn, mae angen i'r llywodraeth nesaf:

- Gynyddu i 77.5%² y targed ar gyfer canran y plant blwyddyn 1 sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2040 oherwydd y diffyg tystiolaeth genedlaethol a rhyngwladol i roi sicrwydd bod llwybr presennol y llywodraeth at filiwn o siaradwyr yn un cadarn a dibynadwy. Yn benodol:
 - i. nid yw'r llywodraeth wedi cyflwyno cynllun realistig i argyhoeddi y gallant sicrhau bod hanner y plant mewn ysgolion Saesneg yn mynd i ddod yn siaradwyr Cymraeg, sy'n gwbl ganolog i'w llwybr ar gyfer cyrraedd miliwn o siaradwyr
 - ii. nid oes targedau rhwng 2020 a 2050 ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n cael eu creu drwy ysgolion Saesneg
 - iii. nid oes chwaith fesurau realistig ar waith nac ar y gweill i wella'r holl ddiffyg dilyniant o un cyfnod addysg i'r llall, gyda phlant yn colli sgiliau Cymraeg neu'n gadael addysg Gymraeg, sy'n sail i'w taflwybr.
- Diwygio'r Cwricwlwm newydd i Gymru drwy greu un continwrm dysgu'r Gymraeg go iawn yn hytrach na'r ddau lwybr sydd yn y cwricwlwm newydd ar hyn o bryd ac sydd i bob pwrpas yn golygu ail-frandio Cymraeg Ail Iaith yn unig. Yn dilyn hynny, bydd angen cyflwyno un cymhwyster Cymraeg i bawb er mwyn sicrhau gwir newid.
- Buddsoddi a chynllunio ar lefel ddigynsail yn y gweithlu addysg er mwyn sicrhau mai'r Gymraeg yw'r norm fel cyfrwng dysgu yn ein system addysg drwyddi draw.

2. Roedd gan y Llywodraeth dargedau o ran twf y Gymraeg ar gyfer disgyblion 7 oed, maent bellach yn mynd i osod targed ar gyfer blwyddyn 1. Mae gwaith ystadegol y Gymdeithas yn awgrymu y bydd angen i 77.5% o blant 7 oed fod mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2040 er mwyn cyrraedd targed y miliwn o siaradwyr: <https://cymdeithas.cymru/sites/default/files/Targedau%20Addysg%20Lleol2.pdf>

Deddf Addysg Gymraeg i Bawb³

Cytunwn ag adroddiad arbenigol⁴ a gomisiynwyd gan y llywodraeth a ddywedodd fod angen deddfwriaeth sylfaenol newydd er mwyn creu fframwaith fydd yn hwyluso camau breision ymlaen fel y nodir uchod. Byddai'r ddeddf:

- yn sefydlu nod hirdymor yn y ddeddfwriaeth i gynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg cyflawn i bawb a gwneud y Gymraeg yn gyfrwng iaith normadol ein holl system addysg
- yn gosod targed o 77.5%⁵ mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2040
- yn disodli'r gyfundrefn o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg gyda system sy'n gosod targedau statudol cenedlaethol a lleol clir, di-droi'n-ôl ar gyfer ehangu addysg Gymraeg er mwyn cyrraedd y nod hirdymor erbyn dyddiad(au) pendant; byddai cymhellion ariannol ynghlwm â'r targedau lleol
- yn gosod targedau o ran cynyddu nifer a chanran y pynciau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion sy'n dysgu'n bennaf drwy'r Saesneg ar hyn o bryd
- yn gwneud trafndiaeth i'r ysgol ac addysg bellach am ddim i bawb
- yn gwneud canolfannau trochi yn ddarpariaeth statudol ym mhob sir i ddysgu Cymraeg i bob plentyn sy'n symud i ardal ac i hwyluso trosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg i addysg Gymraeg.

Ehangu'r gweithlu addysg Gymraeg

Bydd angen i'r llywodraeth nesaf fuddsoddi a chynllunio ar lefel ddigynsail yn y gweithlu addysg i fynd i'r afael â'r diffygion presennol gyda'r nod o sicrhau addysg Gymraeg i bawb. Argymhellwn y camau canlynol:

- drwy'r Ddeddf Addysg Gymraeg newydd, sefydlu targedau statudol o ran nifer y bobl sy'n hyfforddi i fod yn athrawon o'r newydd er mwyn sicrhau cynnydd yn y ganran fydd yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
- cynyddu'r targed presennol ar gyfer canran yr athrawon newydd eu hyfforddi sy'n medru'r Gymraeg o 30% i 80% erbyn 2026
- buddsoddi £100 miliwn ychwanegol dros 10 mlynedd er mwyn dysgu Cymraeg i gyfran sylweddol o'r gweithlu addysg a gofal plant nad yw'n medru'r iaith ar hyn o bryd
- gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a chonsortia addysg i gynllunio'n strategol a darparu rhaglenni dysgu proffesiynol fydd yn cynyddu nifer y gweithwyr addysg sy'n gwella'u sgiliau yn y Gymraeg.

3. <https://cymdeithas.cymru/deddfaddysg>

4. <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gwellar-broses-cynllunio-addysg-gymraeg.pdf>

5. Gweler tudalen 15 'Polisiâu Allweddol Addysg' Cymdeithas yr Iaith: [https://cymdeithas.cymru/sites/default/files/Polisiau%20Allweddol%20Grwp%20Addysg%20\(i%20Fwrdd%20Aled%20Roberts\).pdf](https://cymdeithas.cymru/sites/default/files/Polisiau%20Allweddol%20Grwp%20Addysg%20(i%20Fwrdd%20Aled%20Roberts).pdf)

Strategaeth gweithlu addysg Gymraeg

Yn ogystal â deddfwriaeth newydd, credwn fod angen strategaeth genedlaethol benodol er mwyn cydlynu'r gwaith hanfodol o gynllunio'r gweithlu, a fydd yn cynnwys:

- gosod y targedau statudol a nodir uchod ar golegau hyfforddi athrawon er mwyn cynyddu canrannau'r bobl fydd yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
- cyflwyno rhaglen ddwys o hyfforddiant mewn swydd wahaniaethol, sy'n darparu hyfforddiant wedi'i deilwra i anghenion gweithwyr penodol yn y gweithle
- sicrhau mai nod pob un cwrs yn y cynllun sabothol yw bod gweithwyr yn mynd ymlaen i ddysgu drwy'r Gymraeg wedi'r cwrs, gyda thystysgrif sgiliau fel gwarant
- ymestyn cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon am hyd at flwyddyn ychwanegol i alluogi darpar athrawon i ddysgu Cymraeg a gloywi iaith
- dileu ffioedd dysgu a sefydlu cymhellion ariannol pellach drwy grantiau ar gyfer cyrsiau hyfforddiant athrawon
- sefydlu cynllun i ddenu pobl sydd wedi gadael y gweithlu addysg yn ôl i'r proffesiwn; i ddenu athrawon sy'n medru'r Gymraeg sy'n dysgu mewn gwledydd eraill yn ôl i Gymru ac i gymell pobl mewn proffesiynau eraill i ailhyfforddi fel athrawon, gan gynnwys y gallu i rai sydd wedi ymddeol ddysgu'n rhan-amser
- cydweithio ag undebau athrawon i gynyddu cyflogau gweithwyr addysg a lleihau'r straen sy'n gyrru cymaint i adael y proffesiwn.

Un llwybr dysgu ac un cymhwyster Cymraeg i bawb

Mae'r llywodraeth wedi datgan ei bod yn anelu i sicrhau bod hanner y disgyblion fydd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn gadael yr ysgol yn rhugl eu Cymraeg erbyn 2050. Fodd bynnag, nid ydynt wedi cyhoeddi unrhyw gynllun na cherrig milltir er mwyn cyrraedd y nod hwnnw. Yn absenoldeb unrhyw gynllun neu weithredoedd ystyrllon, y peryg yw bod y nod hwn yn cuddio ac yn tynnu oddi ar yr angen i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg yn sylweddol.

Yn 2015, yn dilyn cyhoeddi argymhellion adroddiad yr Athro Sioned Davies, cyhoeddodd y llywodraeth ei bod am ddileu'r cymhwyster Cymraeg Ail Iaith. Ers hynny, mae pob Gweinidog Addysg wedi ailadrodd yr un ymrwymiad ac mae'r Gweinidog Addysg bresennol wedi datgan ei bod yn cytuno bod angen un cymhwyster Cymraeg i bawb. Yn wir, mae gwleidyddion o bob prif blaid wedi galw am weithredu'r argymhellion.

Saith mlynedd ers adroddiad brys yr Athro Davies, rhaid i'r llywodraeth nesaf weithredu ar yr ymrwymiadau:

- **gweithredu un llwybr dysgu'r Gymraeg a disodli Cymraeg Ail Iaith gydag un cymhwyster Cymraeg i bob disgybl.** Hynny er mwyn cymell newid ar draws yr holl ysgolion o ran dulliau dysgu'r Gymraeg a sicrhau bod pob un disgybl yn gadael ysgol yn rhugl yn Gymraeg.

Blynyddoedd cynnar

Os oes un maes addysg lle mae'n hanfodol sefydlu mai darpariaeth cyfrwng Cymraeg yw'r norm, y blynyddoedd cynnar yw hwnnw. Dyna'r oedran lle mae plant yn gallu caffael ieithoedd yn rhwydd os defnyddir dulliau trochi a gydnabyddir yn fyd-eang fel yr addysgeg orau. Mae'r ddarpariaeth bresennol yn amddifadu'r mwyafrif o blant o ruglder yn yr iaith o'u blynyddoedd cyntaf. Credwn felly y dylid:

- darparu 30 awr o ofal plant yr wythnos am ddim i bob teulu drwy gyfrwng y Gymraeg
- mabwysiadu cynllun i symud yr holl sector blynyddoedd cynnar, gan gynnwys gofal plant a meithrinfeydd, i fod yn ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn unig erbyn diwedd tymor nesa'r Senedd
- buddsoddi'n helaeth yn sgiliau'r gweithlu drwy'r gronfa gweithlu newydd fydd yn werth £100 miliwn dros ddegawd
- buddsoddi mewn rhaglenni Cymraeg yn y teulu i annog rhieni i ddysgu'r iaith gyda'u plant a sicrhau trosglwyddiad iaith mewn teuluoedd
- sefydlu rhaglen sydd â chymhellion ariannol i'w chynnal gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar y cyd â'r Mudiad Meithrin i drosi meithrinfeydd Saesneg yn feithrinfeydd Cymraeg.

2. Cynyddu defnydd y Gymraeg

Er bod llawer o rethreg gan y llywodraeth bresennol am gynyddu defnydd, nid oes llawer o weithredu a blaenoriaethu, ac mae'r gweithredu'n aml yn y meysydd anghywir. Mae strategaeth iaith y llywodraeth yn gosod targed o ddyblu canran y boblogaeth sy'n defnyddio'r Gymraeg bob dydd i 20% erbyn 2050. Fodd bynnag, er bod llawer o rethreg am gynyddu defnydd:

- mae diffyg buddsoddiad dybryd mewn prosiectau i ymestyn y Gymraeg a'i defnydd—ers sawl blwyddyn, oherwydd diffyg cynnydd yn unol â chwyddiant, mae toriadau wedi bod i brosiectau a sefydliadau penodol sy'n ymestyn yr iaith a'i defnydd
- nid oes cerrig milltir o ran cyrraedd y targed
- mae gweithredoedd y llywodraeth wedi canolbwyntio'n bennaf ar ymdrechion gwrth-gynhyrchiol i wanhau rheoleiddio a dargyfeirio gwaith sefydliadau sydd eisoes yn bodoli.

Mae cynyddu defnydd y Gymraeg yn faes lle mae llawer o gamddealltwriaeth a dryswch, a achosir yn fwriadol ac yn anfwriadol. Mae nifer o wleidyddion a llunwyr polisi wedi ceisio sefydlu deuoliaethau ffug rhwng rheoleiddio a chynyddu defnydd, a rhwng yr ymgais i greu siaradwyr a chynyddu defnydd, gan honni bod angen canolbwyntio ar gynyddu defnydd ar draul y nodau eraill. Yn wir, dadleuir gan rai y dylid hepgor ymdrechion i gynyddu nifer siaradwyr neu i reoleiddio er mwyn canolbwyntio'n llwyr ar gynyddu defnydd. Gwrthodwn y ddeuoliaeth ffug beryglus hon.

Mae'r llywodraeth bresennol, tra'n honni ei bod yn canolbwyntio ar gynyddu defnydd, wedi methu ac yn wir wedi gwrthod cydnabod bod gofodau uniaith Gymraeg yn hanfodol i barhad a thwf yr iaith. Nid yn unig mae'r llywodraeth yn brin o strategaeth o sylwedd i gynyddu nifer y gofodau Cymraeg, mae nifer o weithredoedd gwleidyddion ein Senedd bresennol fel petaent yn ymdrech fwriadol i danseilio'r ychydig ofodau Cymraeg sydd, gan gynnwys:

- ceisio darbwyllio'r Llyfrgell Genedlaethol i beidio dynodi Cymraeg yn hanfodol ar gyfer swydd y Llyfrgellydd Cenedlaethol a Phrif Weithredwr, er gwaetha'r ffaith bod 90% o weithlu'r Llyfrgell yn medru'r Gymraeg
- penodi pobl nad ydynt yn medru'r Gymraeg i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, sefydliad sy'n gweithredu yn Gymraeg
- gorfodi Saesneg ar ysgolion Cymraeg yn y cyfnod trochi yn ddiodyn drwy Fil y Cwricwlwm.

Pryderwn, os parheir ar y trywydd hwn, y caiff Saunders Lewis ei brofi'n gywir yn ei ddadansoddiad yn narlith Tynged yr Iaith yn 1962:

“Yn fy marn i, pe ceid unrhyw fath o hunan-lywodraeth i Gymru cyn arddel ac arfer yr iaith Gymraeg yn iaith swyddogol yn holl weinyddiad yr awdurdodau lleol a gwladol ... ni cheid mohoni'n iaith swyddogol o gwbl, a byddai tranc yr iaith yn gynt nag y bydd ei thranc hi dan Lywodraeth Loegr.”

Felly, er bod gan y llywodraeth bresennol darged i ddyblu defnydd yr iaith, nid oes ganddi strategaeth glir ac nid yw'n gweithredu mewn modd fydd yn cyflawni'r amcan clodwiw hwnnw.

Cynigiwn felly'r camau canlynol i ddechrau troi'r llif o blaid y Gymraeg ac i gychwyn proses o normaleiddio'i defnydd ymhob agwedd ar fywyd.

- **Dylai'r llywodraeth nesaf osod nod clir o greu 1,000 o ofodau uniaith Gymraeg o fewn y pum mlynedd nesaf.**

Wrth ymgynghori ar gynnwys y ddogfen hon, rydym wedi clywed am nifer o ofodau—gan gynnwys clybiau chwaraeon a gweithleoedd—sy'n ddylanwadol iawn ym mywydau beunyddiol pobl, ond lle nad oes dim cymhelliant, anogaeth na nod i'w gwneud yn ofodau Cymraeg. Ceir enghreifftiau lle byddai newidiadau bach, neu gael un gweithiwr i loywi eu Cymraeg, yn gallu newid gweinyddiaeth neu gyfrwng iaith gweithgareddau i'r Gymraeg gan gryfhau defnydd yr iaith yn sylweddol.

Credwn fod rhaid gosod nod yn y maes hwn, gan y byddai'n newid y disgwrs ynghylch gwneud y Gymraeg yn hanfodol. Ymhellach, gallai'r targed hwn roi cyfeiriad cliriach i fudiadau, fel y Mentrau Iaith, yn eu hymdrechion pwysig i gynyddu defnydd y Gymraeg ar lawr gwlad.

Mae'r llywodraeth ei hunan ymhell iawn ar ei hól hi o ran gweinyddu'n fewnol yn Gymraeg. Er enghraifft, nid oes yr un adran yn gweinyddu'n fewnol drwy'r Gymraeg yn unig. Dair blynedd ers i'r llywodraeth ymrwmo yn ei strategaeth iaith i '*arwain drwy esiampl drwy hybu a hwyluso cynnydd yn y defnydd a wneir o'r Gymraeg gan ein gweithlu ein hunain*', maen nhw eto i gyhoeddi'r polisi, yn dilyn gohirio parhaus. Mae hefyd diffyg defnydd difrifol o'r Gymraeg gan Aelodau o'r Senedd ac yng ngweinyddiaeth fewnol Comisiwn y Senedd yn ogystal. Mae'r diffyg defnydd o'r Gymraeg yn ein llywodraeth a'n Senedd genedlaethol yn niweidiol iawn nid yn unig o ran defnydd yr iaith o fewn y sefydliadau eu hunain ond, yn ogystal, fel esiampl wael a dylanwad niweidiol ar gyrff eraill.

Ymhellach, i gyflogwyr fel Cyngor Sir Gâr sydd wedi gosod nod o weinyddu drwy'r Gymraeg, nid oes anogaeth na chefnogaeth go iawn iddynt na'u gweithwyr a'u darpar weithwyr i weithio tuag at gyflawni'r newid polisi. Nid oes dim wedi'i wneud chwaith i atal Cartrefi Cymunedol Gwynedd, oedd yn arfer gweithredu drwy'r Gymraeg fel rhan o Gyngor Gwynedd, rhag troi i weinyddu'n fewnol yn Saesneg.

Credwn fod llawer o ddulliau effeithiol a newydd y gellid mynd ati i'w gweithredu er mwyn cyrraedd y targed hwn. Rhai o'r meysydd amlycaf ar gyfer creu gofodau uniaith yw'r cyd-destunau canlynol:

- cymunedau fel trefi a phentrefi lle mae dros 70% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, gan gynnwys, os oes penderfyniadau i adeiladau stadau tai newydd mawrion, sefydlu rhai newydd sbon
- clybiau chwaraeon Cymraeg a chanolfannau celfyddydol lle cynhelir y gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg
- symud ysgolion dwyieithog a chyfrwng Saesneg ar hyd y continwmm ieithyddol i fod yn rhai cyfrwng Cymraeg
- gweithleoedd a chyrrff sy'n gweinyddu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig.

Drwy gyfuniad o ganolbwyntio ymdrechion presennol a sefydlu cymhellion ariannol a pholisiau newydd, gellid gweithredu newidiadau polisi fel y rhai a ganlyn dros gyfnod tymor nesa'r Senedd er mwyn cyrraedd y targed o sefydlu a chynnal mil o ofodau Cymraeg newydd:

- sefydlu cymhelliant yn fformiwlâ ariannu llywodraeth leol i sicrhau bod cynghorau Ceredigion a Sir Gaerfyrddin yn dod i weinyddu'n llwyr drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod gan bob cyngor sir o leiaf ddwy adran sy'n gweinyddu drwy'r Gymraeg yn unig
- amod grant ar gyfrif llywodraethu chwaraeon a'u noddwyr i ddynodi rhagor o glybiau chwaraeon fel rhai sy'n cynnal eu holl weithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg
- amod grant ar gyfrif cyhoeddus a chyfrif sy'n cael arian cyhoeddus i sicrhau bod rhagor o adrannau'n gweinyddu drwy gyfrwng y Gymraeg
- lle mae penderfyniadau i adeiladu stadau tai neu drefi newydd, blaenoriaethu a hwyluso sefydlu'r rhain fel datblygiadau Cymraeg newydd
- cymhellion treth i fusnesau bach a chanol trefi i weinyddu eu busnesau drwy'r Gymraeg
- cymhellion treth i leoliadau gigs a weinyddir drwy'r Gymraeg a lle mae'r gweithgareddau'n rhai cyfrwng Cymraeg.

Yn ogystal, ac fel y nodir uchod, mae'r ymdrechion i gynyddu defnydd y Gymraeg yn cael eu dal yn ôl gan gyllidebau sydd wedi'u rhewi neu eu torri dros y blynyddoedd diwethaf. Mae cynyddu lefel y buddsoddiad i lefel debyg i'r hyn a welir yng nghymuned ymreolaethol Gwlad y Basg yn gam hollol sylfaenol a hanfodol er mwyn cynyddu defnydd yr iaith ar lawr gwlad. Argymhellwn felly y dylid:

- **cynyddu buddsoddiad mewn prosiectau Cymraeg penodol i £186 miliwn y flwyddyn⁶ (neu 1% o gyllideb gyfan y llywodraeth) erbyn 2025/26.**

Byddai'r buddsoddiad ychwanegol yn caniatáu nifer o ddatblygiadau, gan gynnwys:

- sefydlu Menter Ddigidol Gymraeg er mwyn cynyddu defnydd a gwelededd y Gymraeg ar-lein, yn enwedig ar gyfer grwpiau oedran lle mae tystiolaeth yn dangos cwmp yn nefnydd yr iaith
- cylchdaith bandiau Cymraeg newydd
- sefydlu 'Ymgyrch y Glust' yn seiliedig ar ymgyrch yng Ngwlad y Basg sy'n annog pobl sy'n deall Cymraeg ond nad ydynt yn hyderus yn ei siarad i wisgo bathodyn i annog pobl i siarad yr iaith gyda nhw, a chefnogi ymdrechion mudiadau gwirfoddol i dyfu a datblygu 'Diwrnod Shwmae Su'mae'
- cronfa Mentrau Hamdden ac Awyr Agored Cymraeg i normaleiddio'r Gymraeg fel iaith hamdden
- o dan adain y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sefydlu Coleg Hyfforddi Cenedlaethol er mwyn cynllunio'r gweithlu ar gyfer y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus eraill
- rhaglen 'cynhyrfwyr ieithyddol amatur' a fyddai'n plannu gweithiwr fel provocateur i newid arferion iaith cyrff oddi fewn i'r corff ei hunan, o'r gwaelod i fyny.

6. Yn seiliedig ar 1% o gyllideb derfynol y Llywodraeth ar gyfer 2020/21 fel y'i pasiwyd ym mis Chwefror 2020

Yn ogystal â sefydlu mentrau a phrosiectau newydd, mae angen prif-ffrydio a chymell newid ymddygiad drwy gyllidebau ac adrannau eraill. Cynigiwn felly bod angen:

- creu cronfa ffilmiau Cymraeg, gan dargedu ffilmiau ar gyfer pobl ifanc yn enwedig
- sefydlu cyfundrefn fel sydd i'w gweld yng Nghatalwnia sy'n sicrhau cyfeithiad o ffilmiau sydd wedi'u hanelu at blant a phobl ifanc, megis Frozen
- drwy eu fformiwlâu ariannu arferol, darparu bonws i gynghorau a chyrrff eraill sy'n gweinyddu yn Gymraeg
- clustnodi £20 miliwn ar gyfer prentisiaethau cyfrwng Cymraeg yn 2021/22 o'r gyllideb bresennol
- dosrannu £6 miliwn y flwyddyn i'r Coleg Cymraeg i weithredu'r cynllun ar gyfer ehangu addysg bellach cyfrwng Cymraeg
- clustnodi o leiaf 50% o gyllideb genedlaethol gwaith ieuenctid⁷ y llywodraeth ar gyfer gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg
- rhoi gostyngiad trethi busnes i leoliadau cerddoriaeth sydd â mwy na hanner eu gigs yn rhai Cymraeg
- sefydlu rheol newydd ar gyfer buddsoddiad Band B rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, mai prosiectau addysg cyfrwng Cymraeg fydd yn cael o leiaf 50% o gyfanswm y rhaglen, gan sefydlu cronfa benodol ar gyfer prosiectau cyfrwng Cymraeg os nad yw'n bosib cyrraedd y lefel honno o fewn cyfyngiadau'r rhaglen. Dylai Band C y rhaglen sicrhau bod amod ar unrhyw fuddsoddiad i gymell symud ysgolion ar hyd y continwmm ieithyddol i ddysgu mwy drwy gyfrwng y Gymraeg
- gosod gofyniad ar bob corff sy'n cael arian cyhoeddus i wario 1% o'i gyllideb ar brosiectau penodol i hyrwyddo'r Gymraeg, gan gynnwys prosiectau sy'n ymestyn yr iaith i grwpiau sydd wedi'u heithrio ohoni fel rhan o'r agenda 'Dinasyddiaeth Gymraeg i Bawb'
- cynyddu ac ail-flaenoriaethu adnoddau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i'w canolbwyntio ar y gweithlu addysg, rhaglenni Cymraeg yn y teulu, cyrrff addysg, cefnogi creu gweinyddiaeth fewnol Gymraeg, cefnogi'r targed o greu gofodau uniaith Gymraeg, ac iechyd a gofal, sef meysydd strategol o bwys
- rhoi gostyngiad treth i ardaloedd cyfan, megis strydoedd mawr neu bentrefi, ynghyd â busnesau bach unigol sy'n gweinyddu'n fewnol ac yn allanol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mentrau Iaith

Heb os, dylai gwaith y Mentrau Iaith fod yn un o'r ymyraethau polisi pwysicaf yn yr ymdrech i gynyddu defnydd yr iaith ar lawr gwlad. Yn ystod ein cyfnod ymgynghori, rydym wedi clywed rhai pryderon am waith rhai ohonynt, ac mae teimlad bod angen ffocws cliriach i waith y Mentrau Iaith.

7. <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-10/youth-work-april-2018-march-2019-289.pdf>

Credwn fod yr agenda rydym yn ei hargymell yn y ddogfen hon, ‘Mwy na Miliwn—Dinasyddiaeth Gymraeg i Bawb’, yn cynnig cyfle i osod mandad newydd i’r mentrau, sef:

- creu a chynnal rhagor o ofodau uniaith Gymraeg ym mhob rhan o’r wlad; ac
- ehangu mynediad at yr iaith, megis darparu cyfieithu cymunedol i ddigwyddiadau a datblygu darpariaeth gymunedol gyda nod penodol o estyn allan at grwpiau difreintiedig a lleiafrifol.

Mesur y Gymraeg (ymestyn)

Camsyniad difrifol yw’r awgrym bod gwanhau a lleihau rheoleiddio yn mynd i gynyddu defnydd yr iaith. Mae angen rheoleiddio cadarn mewn meysydd lle mae modd rheoleiddio a chynyddu’r buddsoddiad mewn meysydd lle nad oes modd rheoleiddio. Ni ddylid talu i fusnesau mawrion wneud yr hyn y gallen nhw’n hawdd fforddio’i wneud heb yr un geiniog o arian y trethdalwyr.

Dylid sefydlu’r egwyddor o beidio gwario ar brosiectau lle mae modd rheoleiddio i gyflawni’r un nod. Cynigiwn y bydd gwaith yr ‘Uned Hyrwyddo Defnydd Iaith’ yn bwysig yn hyn o beth, gan gadw trosolwg o’r angen i wario ar feysydd lle nad oes modd rheoleiddio.

Felly, yn ogystal â chymhellion a mentrau newydd i gynyddu defnydd y Gymraeg, dylai’r llywodraeth nesaf gyflwyno Bil y Gymraeg newydd a fyddai’n cynnwys:

- estyn y safonau i’r holl sector preifat gan gynnwys y gallu i osod un hysbysiad cydymffurfio ar sector gyfan
- sefydlu hawliau sylfaenol ar wyneb y ddeddfwriaeth er mwyn gwella defnydd a dealltwriaeth o’r hawliau ynghyd â chydymffurfiaeth cyrff
- sefydlu’r hawl i weithwyr ddysgu ym mhob sector, nid yn y sector gyhoeddus yn unig
- gwella gwaith cynllunio’r gweithlu drwy hwyluso cwotâu a mesurau eraill
- amddiffyniad statudol er mwyn ehangu gofodau a pholisïau recriwtio Cymraeg
- pwerau rheoleiddio ehangach a chryfach i’r Comisiynydd.

Pwerau darlledu a chyfathrebu i Gymru

Mae gan y cyfryngau ddylanwad enfawr ar ein bywydau beunyddiol, gan gynnwys ein defnydd o’r Gymraeg. Testun pryder mawr felly yw mai prin iawn yw presenoldeb a gwelededd y Gymraeg ar yr holl lwyfannau cyfryngol sy’n bodoli. Mae diffyg datblygiad cyfryngau Cymraeg o dan reolaeth San Steffan yn amlwg iawn i bawb. Heb os, mae angen mwy o lwyfannau cyfryngol, sianeli teledu a radio Cymraeg—mae’n hollol amhosib i un sianel radio ac un sianel deledu fod yn bopeth i bawb. Ymhellach, mae’r Gymraeg bron yn anweledig ar lwyfannau cyfryngol ar-lein ac nid oes hanner digon yn cael ei wneud i newid hyn.

Yr unig ateb, er mwyn cryfhau'r Gymraeg, ac yn wir, er mwyn gwarchod a sicrhau ein democratiaeth, ydy sicrhau pwerau darlledu a chyfathrebu i Senedd Cymru. Bydd modd wedyn defnyddio pwerau ariannol a deddfwriaethol er mwyn sefydlu system ddarlledu a thelathrebu sy'n craffu ar ein cyfundrefnau democrataidd, yn gwella dealltwriaeth o ddatganoli, yn sicrhau cynnydd mawr ei angen o ran defnydd a phresenoldeb y Gymraeg yn y cyfryngau, ynghyd â gwella lluosogrwydd y cyfryngau.

Crynhown ein prif gynigion fel a ganlyn:

1. Dylid datganoli cyfrifoldeb dros ddarlledu a chyfathrebu yn eu cyfanrwydd i'r Senedd, sef grym rheoleiddio'r holl sbectrwm darlledu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros y ffi drwydded, a dylid hefyd sefydlu fformiwla ariannol statudol ar gyfer ein sianeli a'n llwyfannau Cymraeg a fydd yn cynyddu yn unol â chwyddiant, gan y byddai hynny'n cynnig sicrwydd ariannol hirdymor i'r darlledwyr a'r maes darlledu Cymraeg. Gallai'r llwyfannau newydd gynnwys:
 - gwasanaeth newyddion Cymraeg annibynnol newydd
 - gorsaf radio genedlaethol Gymraeg newydd
 - llwyfan aml-gyfrwng Cymraeg newydd i blant a phobl ifanc
 - sianel deledu ddwyieithog newydd i Gymru.
2. Rydym yn argymhell codi ardoll ar gwmnïau darlledu a thelathrebu, a hefyd ar gorfforaethau sy'n gwerthu hysbysebion, megis Google a Facebook, er mwyn cyllido darlledu cyhoeddus.
3. Dylid creu 'Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol' a fyddai'n rheoleiddio'r cyfryngau'n genedlaethol gan ddisodli Ofcom yng Nghymru. Credwn y dylai fod gan y Cyngor newydd swyddogaethau a phwerau rheoleiddio er mwyn:
 - normaleiddio'r Gymraeg ar bob llwyfan cyfryngol, o radio masnachol a theledu lleol i lwyfannau digidol
 - cryfhau'r cyfryngau cymunedol a chynnwys digidol Cymraeg
 - cryfhau democratiaeth Cymru drwy sicrhau hyfywedd a lluosogrwydd y cyfryngau.
4. Credwn, o dan gyfundrefn ddatganoledig, y dylai cylch gwaith y 'Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol' gynnwys sefydlu 'Endid Creu Cynnwys' a fyddai'n cynhyrchu rhaglenni aml-lwyfan gan gynnwys gwasanaeth newyddion aml-lwyfan, offer a sgiliau a fyddai'n arfogi pobl ar lawr gwlad i gyfranogi ar lwyfannau digidol, a bod yn berchen ar stiwdios ac isadeiledd darlledu. Gallai'r model newydd hwn wella telerau ac amodau gwaith ym maes darlledu. Byddai adnoddau ar gael hefyd am bris teg i gwmnïau cynhyrchu llai gael eu defnyddio.

Menter ddigidol Gymraeg

Mae dylanwad llwyfannau cyfryngol newydd, megis YouTube, yn cael effaith fawr ar ddefnydd iaith, yn enwedig ymysg pobl ifanc. Mae ein haelodau, yn enwedig y rhai sydd â phlant, wedi sylwi ar yr effaith hon gan nad oes cynnwys, mewn nifer o achosion cynnwys rhad iawn ei natur, yn cael ei gynhyrchu yn Gymraeg, a bod y cynnwys Cymraeg sydd yn bodoli yn anweledig iawn mewn nifer o achosion oherwydd algorithmau'r llwyfannau hynny.

Credwn y dylid gwario hyd at £9 miliwn y flwyddyn ar sefydlu a chynnal Menter Ddigidol Gymraeg a fyddai â'r nod:

- o gynyddu cyfleoedd i weld, clywed, creu a defnyddio'r Gymraeg ar y we ac yn ddigidol, ar draws llwyfannau ar-lein
- o rymuso ac arfogi pobl ar lawr gwlad i greu deunydd yn hytrach nag i ganolbwyntio ar greu deunydd ei hunan yn unig.

Cynigiwn y gellid codi arian ar gyfer y prosiect hwn a gwariant arall drwy godi ardoll newydd ar gwmnïau digidol a thelathrebu; amcangyfrifwn y gellid codi oddeutu £50 miliwn y flwyddyn⁸ drwy'r ardoll newydd hon.

Uned hyrwyddo defnydd iaith

Sylweddolwn fod yr hyn rydym yn gofyn amdano—gwariant ychwanegol, ymyraethau mawrion yn y ffordd y caiff cyllidebau prif ffrwd eu gwario ynghyd â'r cymhellion ariannol a pholisi newydd—yn gofyn am weithredu mewn ffyrdd cadarn newydd. Bydd angen prosesau er mwyn sicrhau y caiff arian ei wario'n strategol ac mewn ffordd sy'n arwain at ganlyniadau boddhaol ar lawr gwlad. Credwn felly y dylid sefydlu Uned Hyrwyddo Defnydd Iaith.

Bydd yr uned newydd hon yn eistedd o fewn adran newydd rymus y llywodraeth, Cyfarwyddiaeth y Gymraeg. Seilir yr uned ar arbenigedd polisi a chynllunio ieithyddol, gan gynnwys y gwyddorau ymddygiadol. Bydd hyn yn adeiladu ar waith cychwynnol y llywodraeth i'r cyfeiriad hyn, ac yn manteisio ar waith ymchwil perthnasol yn y maes. Bydd yr uned yn adlewyrchu datblygiadau diweddar ym maes polisi a chynllunio iaith ac yn manteisio ar y cyfleoedd hyn i gyfrannu at weithredu polisi iaith ar draws meysydd polisi'r llywodraeth.

Mae llu o enghreifftiau o newidiadau ymddygiad a allai fod yn fuddiol i'r iaith: o faes technoleg i ddarpariaeth gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a'r defnydd ohonynt. Yn aml, bydd gwaith yr uned yn ategu ymdrechion polisi caletach o ran rheoleiddio, deddfwriaeth neu gyllido gan wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yr ymdrechion hyn.

Gwaith y tîm newydd yn yr uned hon fydd ategu ymdrechion polisi ehangach gan gynorthwyo gyda'r gwaith o flaenoriaethu a datblygu polisi ar draws y llywodraeth er mwyn cynyddu niferoedd siaradwyr a defnydd yr iaith. Gan ein bod yn galw am gynnydd sylweddol yn y gwariant blynyddol ar brosiectau i hyrwyddo'r Gymraeg erbyn 2025/26, argymhellwn mai un o dasgau cyntaf yr uned newydd fydd cynnal adolygiad trwyadl o effaith iaith gwariant presennol a fyddai'n cynnwys adolygiad o oblygiadau ieithyddol polisiau y tu hwnt i faes polisi iaith. Credwn y byddai sefydlu'r tîm newydd a'i arbenigedd o fudd i nifer o feysydd polisi iaith ynghyd â gwella gweithrediad ar draws y llywodraeth.

8. Tudalen 16, 'Yr Achos dros Ddatganoli Darlledu' (2019) <https://cymdeithas.cymru/sites/default/files/Datganoli%20Darlledu%20-%20Ymgynghoriad%20Pwyllgor%20DGCh.pdf>

Rhagor o gymunedau daearyddol Cymraeg

Heb gymunedau daearyddol hyfyw a chryf, nid oes modd i iaith leiafrifoledig oroesi. Er bod patrwm byd-eang o symudiad poblogaeth o ardaloedd gwledig i rai mwy dinesig, mae cyn bwysiced ag erioed ein bod yn cryfhau'r cymunedau hynny lle mae'r Gymraeg yn iaith feunyddiol i gyfran helaeth o'r boblogaeth. Nid oes ymdrech wirioneddol wedi bod i leddfu nac atal y tueddiadau hyn, sydd mor niweidiol i gymunedau Cymraeg. Mae'r tueddiad i ganolbwyntio buddsoddiad yn y de-ddwyrain yn gwaethygu'r patrymau economaidd dinistriol hyn. Ar yr un pryd ac yn gyfochrog â chryfhau ardaloedd traddodiadol Cymraeg, mae angen mynd ati ym mhob rhan o'r wlad i greu a chynyddu cymunedau daearyddol a chyd-destunau eraill lle mae'r Gymraeg yn brif neu'n unig gyfrwng.

Mae cymunedau lle mae dwysedd y siaradwyr Cymraeg ar ei uchaf yn wynebu argyfwng allfudo a mewnfudo. Nid oes amheuaeth bod hyn yn fygythiad enfawr i barhad y Gymraeg fel iaith fyw. Mewn nifer o feysydd, o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, i'r gyfundrefn ffioedd dysgu, i Rwydwaith Seren sy'n mynd ati'n benodol i gymell myfyrwyr i adael Cymru i astudio, mae'r llywodraeth yn hwyluso allfudo a mewnfudo sy'n niweidiol tu hwnt i gymunedau Cymraeg.

Argymhellwn y dylid cyflwyno 'Deddf Eiddo a Chynllunio' a fyddai'n:

- sicrhau bod tai gweigion a thai presennol yn cael eu defnyddio cyn bod dim datblygu o'r newydd
- gosod cap ar ganran yr ail gartrefi neu dai haf sydd mewn cymuned
- newid y diffiniad o dai fforddiadwy a rheoli prisiau rhent fel eu bod yn fforddiadwy i bobl sydd ar gyflogau lleol
- deddfu'n fwy cadarn ac eglur ar gynnal asesiadau effaith iaith pan fo amheuaeth o effaith ar y Gymraeg
- datganoli grymoedd cynllunio, gan gynnwys gosod targedau tai, i'r lefel fwyaf lleol sy'n briodol, a gwneud cynllunio ieithyddol yn orfodol er mwyn sicrhau bod datblygiadau yn cael effaith gadarnhaol yn hytrach na negyddol
- gwneud Comisiynydd y Gymraeg yn ymgynghorai statudol ar Gynlluniau Datblygu Lleol ynghyd â cheisiadau cynllunio unigol
- rheoli prisiau a rhoi cymorth penodol i siaradwyr ieithoedd lleiafrifol aros yn eu cymunedau
- cau unrhyw fannau gwan neu fylchau yn y gyfraith sy'n caniatáu i bobl osgoi trethi.

Yn ogystal, galwn am:

- ddychwelyd y stoc dai cymdeithasol yn ôl i ddwylo cyhoeddus, dychwelyd stoc sy'n cael ei thandefnyddio i ddwylo cyhoeddus, a sicrhau bod elfen sylweddol o dai newydd mewn dwylo cyhoeddus
- uwch-dreth ar elw landlordiaid i fuddsoddi mewn dod â thai gweigion ac ail gartrefi yn ôl i ddefnydd cymunedau a'r bobl sy'n byw ac yn gweithio ynddynt
- cymhellion i adnewyddu a/neu adeiladu tai cynaliadwy o ran deunydd a dull adeiladu
- cosbau am wrthod gosod eiddo i aelodau o gymunedau difreintiedig fel teithwyr neu ffoaduriaid
- datblygu cynllun strategol ar gyfer tai a thwristiaeth mewn ardaloedd gwledig i wrthbwyso'r ffaith bod llawer o dai wedi'u tynnu allan o'r stoc dai sydd ar gael yn lleol.

Allfudo—megis pobl ifanc yn gadael eu cymunedau i chwilio am waith—yw un o'r prif ffactorau sy'n arwain at argyfwng yr iaith. Amcangyfrifir ein bod yn colli tua 5,200 o siaradwyr Cymraeg y flwyddyn drwy allfudo o Gymru. Os edrychwn ar Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Chaerfyrddin dros y degawd diwethaf, mae 117,000 o bobl ifanc rhwng 15 a 29 oed wedi gadael yr ardaloedd hynny, sy'n cyfateb i dros 55% o'r holl allfudiad ar gyfer pob oedran. Yng Ngheredigion, fe wnaeth 3,670 o bobl ifanc adael y sir mewn un flwyddyn yn unig, sef 2015 i 2016—mae hynny'n cyfateb i bron i 20% o holl bobl ifanc 15-29 oed Ceredigion yn gadael y sir. Dyna un o'r prif resymau y maen rhaid canolbwyntio ar bolisiau fyddai'n creu gwaith mewn cymunedau Cymraeg, ac ymgyrchu dros bolisiau economaidd a fydd yn cryfhau sefyllfa'r iaith.

Er mwyn buddsoddi mewn isadeiledd cenedlaethol, megis gwe a thrafnidiaeth rhwng y de a'r gogledd, ynghyd â chymhellion ariannol i ddatblygu trefi Cymraeg, argymhellwn:

- rheoleiddio a chyflwyno treth gosbedigol ar dai sy'n cael eu defnyddio ar gyfer AirBnB yn bennaf neu'n unig, gan gynnwys creu diffiniad o dai neu fflatiau sy'n cael eu defnyddio yn eu cyfanrwydd fel ail gartrefi neu AirBnB
- pwerau trethu ar dwristiaeth i gynghorau
- pwerau i drethu elw landlordiaid

Yn ogystal, credwn y dylid:

- sefydlu dyletswydd ar y llywodraeth i hybu twf economaidd a lledaenu ffyniant ledled y wlad
- sefydlu ysgol feddygol ym Mangor i hyfforddi gweithlu iechyd a gofal Cymraeg
- datganoli cannoedd o swyddi sector cyhoeddus o Gaerdydd
- sefydlu cwmni ynni gwyrdd cenedlaethol yn Ynys Môn
- sefydlu Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol a'r Fenter Ddigidol Gymraeg yn siroedd y gorllewin i weinyddu yn Gymraeg
- ail-agor rheilffyrdd Aberystwyth i Gaerfyrddin a Bangor i Borthmadog
- dileu ffioedd dysgu i'r rhai sy'n astudio yng Nghymru.

Llywodraethiant newydd

Fel nodir ar ddechrau'r ddogfen hon, mae angen ceisio mynd at wraidd methiant pob llywodraeth ers dechrau datganoli i gyflawni eu strategaethau iaith.

Nid mater o fethiant sy'n gyfyngedig i'r maes iaith yn unig yw'r patrwm o fethiant y gwasanaeth sifil i gyflawni ar dargedau a osodir gyda mandad democrataidd. Mae'n rhannol yn ymwneud â diffygion strwythurol, gan gynnwys recriwtio a hyfforddiant i'r gwasanaeth sifil yn eu cyfarwydd ynghyd â diffyg ewyllys wleidyddol.

Yn y maes hwn, mae angen dim llai na chwyldro er mwyn sicrhau bod ganddon ni weithrediaeth sydd wedi'i strwythuro mewn modd sy'n barod i gyflawni'r agenda 'mwy na miliwn'.

Felly, dylai'r llywodraeth nesaf:

- uwchraddio Is-adran y Gymraeg yn 'Gyfarwyddiaeth y Gymraeg' gyda chynnydd sylweddol yn nifer y swyddogion sy'n gweithio ar agenda 'mwy na 'miliwn'
- ariannu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i sefydlu Coleg Hyfforddi preswyl er mwyn sicrhau bod gweithwyr newydd y llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn rhugl eu Cymraeg ac yn magu dealltwriaeth lawn o'r cyd-destun Cymreig
- gosod targed mewnol, fel rhan o'r targed i greu mil o ofodau uniaith Gymraeg newydd, y bydd pum cyfarwyddiaeth o'r llywodraeth yn gweinyddu'n llawn drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn diwedd tymor y Senedd nesaf, gan gynnwys y gyfarwyddiaeth addysg a'r gyfarwyddiaeth diwylliant, chwaraeon a hamdden.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, clywsom gwynion niferus am ddiffyg defnydd mewnol o'r Gymraeg yn y gwasanaeth sifil. Er mwyn gweddnewid y sefyllfa, rhaid mynd ati i roi hyfforddiant iaith i rannau o'r gweithlu presennol mewn ffordd lawer mwy systematig fel bod rhannau cynyddol o'r gwasanaeth sifil yn dod yn rhugl yn yr iaith mewn cyfnod byr. Credwn hefyd y dylid sefydlu polisi bod pob gwas sifil sy'n ymuno â'r llywodraeth o'r newydd yn gorfod medru'r Gymraeg yn rhugl, neu'n ymuno ar raglen ddwys o ddysgu Cymraeg wrth ymuno â'r gweithlu, gyda chyfrifoldeb ar y llywodraeth i sicrhau bod pob gweithiwr newydd yn rhugl yn y Gymraeg cyn pasio eu cyfnod prawf—polisi a fydd yn hawdd ei weithredu drwy sefydlu'r Coleg Hyfforddi Cenedlaethol o dan adain y Coleg Cymraeg.

Comisiynydd y Gymraeg

Mae angen ail-ffocysu rôl y Comisiynydd ar reoleiddio cadarn. Credwn felly y dylid:

- adfer ffocws rôl y Comisiynydd fel rheoleiddiwr annibynnol, yn hytrach na chorff sy'n ceisio bod yn popeth i bawb fel yr hen Fwrdd yr Iaith
- gwneud ymestyn y safonau i weddill y sector breifat yn flaenoriaeth i'r Comisiynydd a'i staff
- ariannu'r Comisiynydd yn annibynnol ar y llywodraeth yn uniongyrchol drwy grant bloc fel y Swyddfa Archwilio a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus
- gwneud penodiad y Comisiynydd nesaf yn benderfyniad i'r Senedd, yn hytrach na'r llywodraeth
- sefydlu uned addysg newydd er mwyn rheoleiddio Cynlluniau Strategol y Gymraeg, yn ogystal â chynorthwyo rhieni a newid ymddygiad
- sefydlu uned cynllunio er mwyn rheoleiddio asesiadau effaith iaith ceisiadau cynllunio unigol ynghyd ag ymgymryd â'r swyddogaeth newydd o fod yn ymgynghorai statudol ar Gynlluniau Datblygu Lleol
- fel rhan o'r targed 'mwy na miliwn', gofyn i'r Comisiynydd gadw trosolwg cenedlaethol ar gyflawni'r miliwn gyda dyletswydd i wneud asesiad blynyddol ar berfformiad
- sicrhau bod cyrff sy'n elwa o'r gostyngiadau treth a'r cymhellion ariannol eraill sydd wedi'u gosod er mwyn cynyddu defnydd y Gymraeg yn cadw at eu hymrwymiaidau
- rhoi hawliau i'r Comisiynydd i orfodi amodau'n ymwneud â'r Gymraeg sydd yng nghytundebau caffael y llywodraeth a chyrrff cyhoeddus eraill.

3. Dinasyddiaeth Gymraeg i bawb

Mae'r cysyniad o Ddinasyddiaeth Gymraeg i Bawb yn cydnabod bod angen dyfnhau'r agenda iaith bresennol a chanolbwyntio ar ddefnydd bob dydd ac estyn y Gymraeg i bawb, nid y rhai ffodus yn unig.

Fel y sonnir yng nghyflwyniad y ddogfen hon, yn ein gwaith ymgysylltu mae nifer o bobl wedi cyfeirio at y rhwystrau sy'n wynebu rhai grwpiau rhag cael mynediad at yr iaith—gan gynnwys rhwystrau daearyddol, economaidd, gwybodaeth neu ddsbarth cymdeithasol. Dyna sy'n ein harwain i alw am 'ddinasyddiaeth Gymraeg i bawb' er mwyn sicrhau bod pawb, yn ddieithriad, yn cael dysgu, profi a defnyddio'r Gymraeg mewn modd ystyrllon yn eu bywydau beunyddiol.

Ymddengys bod ein system bresennol yn creu ac yn cynnal dosbarth canol gwyn Cymraeg gan rwystro—yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol—rhai grwpiau penodol rhag dysgu Cymraeg neu ei defnyddio yn eu cymunedau a'u bywydau bob dydd. Wedyn, er eu bod yn cynnal system sy'n allgáu grwpiau o'r Gymraeg, mae gwleidyddion ac eraill yn ceisio honni nad yw cynnal digwyddiadau a gofodau uniaith Cymraeg yn gynhwysol.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar weledigaeth newydd, daeth yn amlwg bod rhwystredigaeth eang am yr allgáu o'r Gymraeg sy'n digwydd yn anuniongyrchol a'r diffyg cynllun rhagweithiol i estyn yr iaith i grwpiau demograffig penodol, e.e. pobl sydd heb gar, sydd ar incwm isel neu sy'n methu gweithio. Mae'n amlwg bod angen gwaith sylweddol i estyn allan at gymunedau sy'n cael eu tangynrychioli yn y Gymraeg ar hyn o bryd oherwydd rhesymau hanesyddol a strwythurol, gan gynnwys cymunedau croenliw yn arbennig. Mae angen dileu'r holl rwystrau i fynediad at yr iaith.

Buddsoddiad yn sgiliau'r genedl yw buddsoddiad yn y Gymraeg. Drwy sicrhau mai ein cymunedau difreintiedig sy'n cael budd o'r buddsoddiad yma, mae targed y miliwn yn gyfle i unioni anghydraddoldebau cymdeithasol.

Nid yw ein sefydliadau cyhoeddus yn gwneud digon i estyn y Gymraeg i grwpiau newydd. Does dim amodau nac anogaeth i gysylltu gweithgarwch prosiectau Cymraeg gyda grwpiau sydd wedi'u hallgáu. Mae rhai mudiadau'n gwneud hyn o'u gwirfodd, ond mae diffyg cydnabyddiaeth ac arweiniad gan y llywodraeth.

Er gwaetha'r dyletswyddau cydraddoldeb cyfreithiol sydd ar y llywodraeth, nid oes sôn yn eu strategaeth iaith am sut i estyn y Gymraeg i grwpiau sy'n draddodiadol wedi cael eu heithrio ohoni. Yn ein gwaith ymgysylltu, mae wedi dod i'r amlwg nad oes gofyniad na dyletswydd ar gyrff i wneud hyn chwaith.

Mae diffyg mynediad rhai grwpiau demograffig i'r Gymraeg yn amlwg—o fudwyr a'r rhai sy'n byw ar incwm isel i weithwyr ategol ysgolion a chymunedau croenliw. Fodd bynnag, nid yw'r llywodraeth yn blaenoriaethu mynd i'r afael a'r rhwystrau a'r camwahaniaethu anuniongyrchol sy'n wynebu rhai o'r grwpiau sydd a'r grym lleiaf yn ein cymdeithas.

Er mwyn newid y sefyllfa a ddisgrifir uchod, a sefydlu dinasyddiaeth Gymraeg i bawb, credwn y dylid:

- sicrhau gwersi Cymraeg ar bob lefel am ddim i bawb, boed drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol neu ddarparwr arall
- ymestyn cwmpas Safonau'r Gymraeg er mwyn sicrhau eu bod yn creu'r hawl i bob gweithiwr ddysgu'r Gymraeg yn y gweithle
- gosod amodau ar grantiau cyhoeddus i estyn y Gymraeg i grwpiau sydd wedi'u heithrio o'r iaith ar hyn o bryd
- sefydlu cronfa 'mynediad at yr iaith'—i unigolion a phrosiectau—i chwalu'r rhwystrau i'r rhai sy'n cael eu heithrio ac i gynnal a chreu gofodau uniaith Gymraeg cynhwysol, megis:
 - yr hawl i ddysgu neu loywi Cymraeg dwys i bawb am ddim, er mwyn, er enghraifft, sicrhau bod ystod ehangach o bobl yn gallu dod yn rhugl yn yr iaith cyn ymgeisio am swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol
 - darpariaeth eang o drafndiaeth, bwyd a gofal plant am ddim er mwyn hwyluso mynediad at wersi Cymraeg yn agos at bobl yn eu cymunedau yn ogystal â darpariaeth ar-lein yn unig i'r rhai sy'n dymuno hynny
 - hyrwyddo a buddsoddi mewn rhaglenni cyfieithu cymunedol
 - trafndiaeth am ddim i ddigwyddiadau Cymraeg, megis Eisteddfodau Cylch yr Urdd
 - mynediad am ddim i Eisteddfodau a digwyddiadau Cymraeg eraill
 - Cynllun 'Ffrindiau Cymraeg' er mwyn croesawu ffoaduriaid drwy gyfrwng y Gymraeg, yn seiliedig ar raglen Voluntaris yng Nghatalwnia.

Ariannu'r cynigion

Sylweddolwn fod y cynigion uchod yn golygu tipyn o wariant ychwanegol gan y llywodraeth. Rydym felly wedi amlinellu tair ffordd newydd o godi incwm:

- **Ardoll ar gwmnïau digidol a thelathrebu**

Amcangyfrifwn y gellid codi dros £50 miliwn⁹ o'r ardoll newydd hon, a fyddai'n hen ddigon i allu ariannu'r prosiectau digidol a awgrymir yn y ddogfen hon. Amlinellwn ymhellach sut y gellid codi'r incwm hwn yn ein papur 'Darlledu yng Nghymru—yr achos dros bwerau darlledu a chyfathrebu i Gymru'.

- **Treth ar AirBnB a thwristiaeth**

Mae defnydd cynyddol o AirBnB yn cyfrannu at godi prisiau eiddo a rhent ynghyd â chynyddu'r galw am ail dai. O ganlyniad, mae hynny'n tanseilio cynaliadwyedd y Gymraeg mewn nifer o gymunedau. Adroddir gan AirBnB bod 467,000 o ymwelwyr wedi aros ar aelwydydd yng Nghymru yn 2017/18 a bod incwm aelwydydd yng ngwledydd Prydain yn £854 miliwn yn yr un flwyddyn.

Mae'r llywodraeth eisoes wedi ystyried cyflwyno treth ar dwristiaeth¹⁰ i weld sut y gallai cyfraniad bach gan ymwelwyr helpu i gynnal gwasanaethau pwysig i gymunedau. Nodir yn yr adroddiad bwysigrwydd cynnwys AirBnB fel rhan o unrhyw gynnig ar gyfer treth newydd yn y dyfodol. Yn 2017, roedd 10.1 miliwn o ymweliadau dros nos â Chymru, sy'n awgrymu y gallai treth isel fesul noson godi degau o filiynau'r flwyddyn.

- **Uwch-dreth ar elw landlordiaid**

Mae'r hawl i loches yn hawl ddynol sylfaenol a gydnabyddir gan y Cenhedloedd Unedig fel rhywbeth sy'n angenrheidiol i bawb. Drwy wneud elw heb ei ennill ar dai, mae landlordiaid yn ymelwa ar yr angen sylfaenol yma am loches er mwyn cyfoethogi eu hunain ar draul y tlotaf, y mwyaf bregus a'n cymdeithas yn ehangach.

Mae dros 100,000 o landlordiaid preifat wedi'u cofrestru yng Nghymru¹¹. Drwy gyflwyno uwch dreth o 25% ar eu hincwm, amcangyfrifwn y gellid codi oddeutu £375 miliwn y flwyddyn.

Er mwyn atal landlordiaid rhag cynyddu prisiau rhent mewn ymateb i'r dreth newydd, cynigiwn fod y llywodraeth yn cyflwyno system o reoli prisiau rhent.

- **Uwch-dreth ar ail gartrefi**

Nid yw bodolaeth ail gartrefi yn fuddiol i'n cymunedau gan eu bod yn cynyddu prisiau tai yn artiffisial yn yr ardaloedd o'u hamgylch, gan ei gwneud hi'n anodd i bobl ifanc leol ymgartrefu yn eu cymunedau. Yn ogystal, mae ail gartrefi hefyd yn cael effeithiau negyddol ar sefyllfa'r Gymraeg yn yr ardaloedd hyn.

9. <https://cymdeithas.cymru/papurdatganoli>

10. <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/adroddiad-ar-bolisi-trethi-cymru-2018.pdf>

11. https://www.rentsmart.gov.wales/Uploads/Downloads/00/00/01/05/DownloadFileEN_FILE/Monthly-Statistics-June-2020.pdf

Mae 24,423 o ail dai yng Nghymru¹². Drwy ddyblu cyfraddau'r Dreth Trafodiadau Tir presennol ar y tai hyn, a gododd £63.9 miliwn yn 2019/2020¹³, amcangyfrifwn y gellid codi degau o filiynau'r flwyddyn.

Amcangyfrifwn y gellid codi oddeutu £500 miliwn y flwyddyn drwy gyfuniad o'r trethi newydd hyn. Yn ogystal ag ariannu ein cynigion ni ar gyfer gwariant yn y ddogfen hon felly, byddai modd buddsoddi ymhellach mewn gwasanaethau cyhoeddus er lles ein pobl a'n cymunedau.

12. <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Local-Government/Finance/Council-Tax/Dwellings/chargeableemptyandsecondhomesbylocalauthority>

13. <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Taxes-devolved-to-Wales/Land-Transaction-Tax/landtransactiontaxstatistics-by-transactiontype-transactiondescription-latestyear>

Casgliadau

Mae'r cynigion uchod wedi'u llunio wedi i Gymdeithas yr Iaith ymgynghori â nifer sylweddol o arbenigwyr a mudiadau ar yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn sicrhau ffyniant y Gymraeg a chymunedau Cymraeg yn fwy cyffredinol.

Roedd teimlad cryf ymysg y mwyafrif o bobl bod targed y miliwn wedi symud trafodaeth gyhoeddus am y Gymraeg ymlaen ac mai'r hyn sydd ei angen yn y Senedd nesaf yw dyfnhau ac adeiladu ar hynny. Mae rhai'n pryderu bod y targed yn nod gwag oni bai bod camau pendant yn cael eu cymryd i'w gyrraedd, ond y farn yn gyffredinol yw bod miliwn yn sail hanfodol i adeiladu arno er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu.

Mae'r mwyafrif o fudiadau'n teimlo nad yw'r llywodraeth wedi esbonio'n ddigonol beth yw eu cynllun i gyrraedd y miliwn a beth yw eu cyfraniad nhw fel mudiadau ati. Mae hynny'n dangos gwendid yn strwythurau'r llywodraeth a methiant i gynnal deialog ar lawr gwlad er mwyn sicrhau cydlyniant ymdrech nifer o gyrff at yr un nod. Mae ein cynigion i uwchraddio is-adran y Gymraeg i fod yn gyfarwyddiaeth lawn ynghyd ag ail-ffocysu gwaith y Comisiynydd ar waith rheoleiddio penodol yn ymdrech i fynd i afael â rhai o'r problemau a adnabyddir gan eraill.

Mae ffocws clir ar gynyddu nifer y siaradwyr, drwy Ddeddf Addysg Gymraeg, buddsoddiad sylweddol mewn hyfforddiant i'r gweithlu addysg a gofal plant, ynghyd â chynyddu defnydd mewn ffordd ystyrlon drwy ffocws newydd ar sefydlu gofodau Cymraeg newydd.

Gwnaed llawer o sylwadau hefyd yn ystod y cyfnod ymgynghori am yr angen i newid canfyddiad pobl o'r iaith ac ymestyn yr iaith i grwpiau ymylol yn well. Dyna'n rhannol sydd wedi'n hysgogi i alw am agenda 'Dinasyddiaeth Gymraeg i Bawb' wedi ei chefnogi gan gronfa newydd i ehangu mynediad at yr iaith, fydd yn ogystal yn cyfrannu at agenda cyfiawnder cymdeithasol ehangach.

Ochr arall y ddadl am gynyddu nifer y siaradwyr yw'r angen i newid yn llwyr y disgwrs ynghylch gofodau, cymunedau a chyd-destunau Cymraeg. Yn hytrach na bygwth y lleoedd hyn yn anuniongyrchol ac yn uniongyrchol, cyfrifoldeb y llywodraeth yw eu cefnogi. Dylai'r llywodraeth fod yn sicrhau bod mynediad gan bawb at ruglder yn y Gymraeg fel bod gofodau uniaith Gymraeg yn destun balchder a mwynhad i bawb, ac yn lleoliadau a chyd-destunau sy'n amlhau yn hytrach na lleihau. Dylai'r targed o greu mwy o ofodau Cymraeg sicrhau bod cymhelliant: i weithleoedd sy'n gweinyddu drwy'r Gymraeg ddod yn norm; i ffilmiau a gigs Cymraeg fod yn fwyfwy amlwg yn ein bywydau beunyddiol; ac i ni weld rhagor o gymunedau daearyddol lle mae dros 70% o bobl yn siarad Cymraeg. Yn ogystal, dylai ein cynigion i ddileu'r rhwystrau i fynediad at yr iaith, megis gwersi Cymraeg am ddim i bawb a'r gronfa mynediad at yr iaith, greu'r amgylchiadau fydd yn caniatáu i'r gofodau hyn flodeuo ym mhob rhan o'r wlad.

Fel y gwelwn yn aml gyda thorf yn bloeddio ein hanthem genedlaethol mewn gêm bêl-droed, mae adloniant a hamdden yn gyd-destun lle mae'r Gymraeg eisoes yn cynnwys pob un dinesydd. Mae'r cynigion felly'n gweithio gyda llif barn y cyhoedd yn hyn o beth drwy gynnig cronfa ffilmiau, cylchdaith bandiau a chlybiau chwaraeon Cymraeg.

Cred Gymdeithas yr Iaith erioed bod y Gymraeg yn perthyn i bawb, ym mhob rhan o'r wlad. Mae'r cynigion yn y ddogfen hon yn cynrychioli'r camau mawr, ond cyraeddadwy, sydd eu hangen i wireddu'r weledigaeth honno o ddifri. Dyma her a dyma gyfle i'n gwleidyddion, a phob un ohonom sy'n galw'r wlad hon yn gartref.

**Cynyddu
defnydd
yr iaith**

Creu mil o
ofodau newydd
lle mae'r
Gymraeg
yn brif iaith

Sefydlu Menter
Ddigidol
Gymraeg
i gynyddu
cynnwys
Cymraeg ar-lein

Gwario £186m
y flwyddyn ar
hyrwyddo'r
Gymraeg, sef
1% o gyllideb
y llywodraeth

**Creu'r
miliwn
a mwy**

Pasio Deddf
Addysg Gymraeg
i Bawb

Buddsoddi £100
miliwn i ddysgu
Cymraeg i
weithwyr addysg
a gofal plant

Sicrhau bod
80% o athrawon
newydd yn gallu
siarad Cymraeg

**Dinasyddiaeth
Gymraeg
i bawb**

Gwersi Cymraeg
am ddim i bawb

Cronfa newydd
i gefnogi pobl i
ddysgu Cymraeg

Dyletswydd
ar grantiau
cyhoeddus i
ymestyn yr iaith
i grwpiau sydd
wedi'u heithrio
ohoni

cymdeithas.cymru/mwynamiliwn

#mwynamiliwn

